# TGCh a Pholisi Corfforaethol

## MITEL MICOLLAB

meddalwedd cydweithredu menter

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council




**Gosod rhaglen Ffôn Meddal Mitel MiCollab yn Windows 10.**


Cliciwch ar yr eicon Software Center ar eich bwrdd gwaith.





Gosodwch y rhaglen Mitel MiCollab o'r tab Applications.



Ar ôl ei gosod. agorwch feddalwedd MiCollab o'r Ddewislen 'Start' a derbyniwch y cytundeb trwydded.




Byddwch yn derbyn sawl e-bost wrth gofrestru a gallwch anwybyddu pob un ond y ddau olaf. Bydd un o'r rhain yn cynnwys eich Allwedd Ddilysu unigryw y mae angen i chi ei nodi yn y sgrin isod.





Ar ôl i'r Allwedd Ddilysu gael ei rhoi, bydd MiCollab yn dechrau am y tro cyntaf.


*Cyn i chi wneud unrhyw beth arall, cliciwch ar eich blaenlythrennau a newidiwch eich argaeledd **i Gweithio gartref** a gwiriwch eich bod wedi'ch gosod i **Ffôn Meddal** yn y dde isaf.*

**Sut i ddefnyddio rhaglen ffôn meddal Mitel MiCollab.**

Dyma'r sgrin Cartref gyda'r ddewislen ar y chwith.





Cliciwch ar y saeth (yn y gornel chwith isaf) i ehangu neu leihau'r ddewislen.





Yn y blwch Chwilio gallwch ddod o hyd i bobl neu roi rhif ffôn i'w ffonio. Bydd unrhyw alwadau rydych yn eu gwneud neu'n eu cael yn ymddangos yn Call History.

Gallwch ddefnyddio'r 3 dot o dan eich blaenlythrennau i ychwanegu URL (gwefan), ychwanegu cysylltau deialu cyflym, ychwanegu cyswllt/cysylltau neu sefydlu grŵp.





Bydd eich sgrin Cartref yn dangos unrhyw newidiadau rydych wedi'u gwneud.



## Trin Galwadau


### Gwneud galwad

Rhowch y rhif rydych chi am ei ffonio yn y blwch chwilio a chliciwch ar **Make call**.





### Ateb galwad

Os byddwch yn derbyn galwad byddwch yn clywed sŵn o seinyddion eich gliniadur neu'ch clustffonau a bydd eicon MiCollab ar y bar tasgau yn fflachio.




Cliciwch ar yr eicon sy'n fflachio i weld pwy sy'n ffonio ac i ateb neu wrthod yr alwad.




## Trosglwyddo galwadau


Trosglwyddwch alwad drwy glicio ar y 3 dot ac wedyn trosglwyddo i rif arall.




**Dargyfeirio galwadau**

I ddargyfeirio galwadau mae angen i chi wneud y canlynol:


- Ewch i Settings – General – My Numbers.
- Cliciwch ar y 3 dot o dan eich blaenlythrennau, cliciwch ar New ac ychwanegwch yr enw a'r rhif.




- Ewch yn ôl i Settings – Manage Status – Working from home.
- Sgroliwch i lawr i "If I do not answer" a'i newid i'r rhif newydd a roddwyd yn gynharach a chlicio ar Done.
- I ddiffodd y broses ddargyfeirio ewch i Settings – Manage Status – Working from home.
- Sgroliwch i lawr i "If I do not answer" a'i newid yn ôl i **MiCollab Client Default**.




Gallwch osod eich argaeledd drwy glicio ar eich blaenlythrennau. ***Sylwch nad yw hyn yn gysylltiedig â'ch presenoldeb ar Teams. Os ydych mewn cyfarfod Teams byddwch yn dal i dderbyn galwadau i'ch estyniad.***




**MiCollab ar ddyfeisiau Android Corfforaethol ac IOS.**


Gellir defnyddio Ap MiCollab hefyd ar ddyfeisiau symudol Corfforaethol. Byddai angen i chi gyfeirio at yr un e-bost ar gyfer yr Allwedd Ddilysu neu'r côd QR i gofrestru'r Ap.

Mae'r Ap ei hun yn edrych yr un fath ar y naill blatfform neu'r llall ac mae ganddo'r un swyddogaeth â rhaglen Windows.

I gael mynediad i ddewislen yr Ap a'r opsiynau Argaeledd, symudwch eich bys i mewn o'r naill ochr a'r llall i'r sgrin.

I wneud galwad gallwch ddefnyddio'r chwyddwydr i chwilio neu ddeialu rhif.


13:28
83%
Home
BBC News
Intranet
Inbox
ISDN30
Today 12:32
ISDN30
Today 12:26
Gemma Jones
Yesterday 14:59


13:29
83%
Search or Dial
Home
Contacts
Chat
Call History
Voicemail
Dialpad
Settings
Today 12:32
Today 12:26
Yesterday 14:59